# Y Cyngor Sir (C)

Man Cyfarfod
**Siambr y Cyngor - Neuadd y Sir, Llandrindod**

Dyddiad y Cyfarfod
**Dydd Mercher, 20 Ebrill 2016**

Amser y Cyfarfod
**10.30 am**

Neuadd Y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â
**Stephen Boyd**
01597 826374
steve.boyd@powys.gov.uk

Dyddiad Cyhoeddi

## AGENDA

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **YMDDIHEURIADAU** | **CC37- 2016** |

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

| | | |
|---|---|---|
| **2.** | **COFNODION** | **CC38- 2016** |

Awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol fel cofnod cywir.
(Tudalennau 5 - 68)

| | | |
|---|---|---|
| **3.** | **DATGANIADAU O DDIDDORDEB** | **CC39- 2016** |

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant oddi wrth Aelodau yn ymwneud â'r eitemau sydd i'w hystyried ar yr agenda.

| | | |
|---|---|---|
| **4.** | **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD** | **CC40- 2016** |

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan Gadeirydd y Cyngor.

| | | |
|---|---|---|
| **5.** | **CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD** | **CC41- 2016** |

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau oddi wrth yr Arweinydd.

| | | |
|---|---|---|
| **6.** | **NEGES BRÎFFIO'R PRIF WEITHREDWR** | **CC42- 2016** |

Derbyn neges briffio oddi wrth y Prif Weithredwr.

| | | |
|---|---|---|
| **7.** | **TROSGLWYDDIADAU** | **CC43- 2016** |

Ystyried trosglwyddiadau y mae angen i'r Cyngor eu cymeradwyo.
(Tudalennau 69 - 70)

| | | |
|---|---|---|
| **8.** | **Y CYFANSODDIAD NEWYDD** | **CC44- 2016** |

Ystyried adroddiad Cyfreithiwr y Cyngor.
(Tudalennau 71 - 392)

| | | |
|---|---|---|
| **9.** | **AELODAETH PWYLLGORAU** | **CC45- 2016** |

Ystyried adroddiad Cyfreithiwr y Cyngor.
(Tudalennau 393 - 400)

| | | |
|---|---|---|
| **10.** | **CADEIRYDDION PWYLLGORAU CRAFFU** | **CC46- 2016** |

Ystyried adroddiad Cyfreithiwr y Cyngor.
(Tudalennau 401 - 404)

| | | |
|---|---|---|
| **11.** | **RHYBUDD O GYNIGIAD - Y CYNGHORYDD SIR MYFANWY ALEXANDER A'R CYNGHORYDD SIR GARETH RATCLIFFE** | **CC47- 2016** |

Mae galw ar y Cyngor hwn i wneud sawl penderfyniad, ond ychydig yn unig fydd â'r canlyniadau pellgyrhaeddol a dramatig sy'n deillio o newidiadau mawr I Ysgolion Uwchradd yr Awdurdod. Mae angen i'r penderfyniadau hyn gael eu gwneud mewn modd agored, gan ddilyn y drafodaeth ehangaf bosibl, ac i'r perwyl yma, cynigir bod pob newid sylweddol i Ysgolion Uwchradd Powys yn cael eu trafod gan y cyngor Llawn. Mae'r newidiadau sylweddol i'w diffinio fel newid yn yr oed derbyn i'r ysgol (gan gynnwys dileu darpariaeth ôl-16 a chreu Ysgolion Pob Oed), newidiadau yn statws ieithyddol neu ffydd (ac eithrio lle bydd y statws wedi newid yn organig trwy estyniad graddol o ddarpariaeth cwricwlwm), uno neu gyd-reoli neu gau. Dylai trafodaeth o'r fath gael digon o amser i gyfrannu'n llawn ati, ac os n bosibl, dylid ei gweddarlledu i ganiatáu i aelodau  o'r gymuned ddilyn y dadleuon. Yn dilyn y drafodaeth, dylid pasio cynnig yn rhoi cyfle i fynegi ewyllys democrataidd y Cyngor.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Sir Myfanwy Alexander

Eiliwyd gan y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe

| | | |
|---|---|---|
| **12.** | **CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD** | **CC48- 2016** |

12.1. **Cwestiynau i'r Aelod Portffolio â Chyfrifoldeb am Brydau Ysgol oddi wrth y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance**

Beth mae'r Cyngor yn ei wneud i sicrhau bod bwyd sy'n cael ei dyfu'n lleol yn cael ei ddefnyddio mewn Cinio Ysgol?
(Tudalennau 405 - 406)

12.2. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio â Chyfrifoldeb am Dai oddi wrth y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance**

Mae 'Safon Ansawdd Tai Cymru' Llywodraeth Lafur Cymru wedi trawsffurfio stoc oedd yn heneiddio yn gartrefi sy'n defnyddio ynni'n fwy effeithlon ac sy'n addas at y diben y gall trigolion fod yn falch ohonyn nhw. Ond mae ein stadau tai bob amser yn aros i'r Cyngor drin y gwaith sydd wedi ôl-gronni - fel rhoi wyneb newydd ar y llwybrau a'r ffyrdd pengaead; trwsio ffensys a thorri gwrychoedd; a chlirio graffiti a thipio anghyfreithlon.

Beth yw cynllun y Cyngor ar gyfer mynd i'r afael â'r materion yma?
(Tudalennau 407 - 408)

12.3. **Cwestiwn i'r Aelod Portffolio â Chyfrifoldeb am Addysg oddi wrth y Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe**

Fel y gwyddoch, bydd Estyn yn monitro cynnydd pob ysgol, ac mae hyn yn amrywio o fesurau arbennig i ysgolion ag anhawster i driniaeth ysgafn i'r ysgolion gorau, ac mae'r mwyafrif o'r ysgolion yn y canol mewn grŵp sy'n cael eu harolygu ar faterion penodol yn unig. Ar 16 Mawrth, cyhoeddodd Estyn na fyddai Ysgol Uwchradd Gwernyfed yn y grwp canol bellach ond oherwydd y cynnydd a wnaeth bydd yn lle hynny'r un fath ag Ysgol Uwchradd megis y Drenewydd a Chrughywel nad oes angen unrhyw fonitro ychwanegol arnynt (nid monitro arbennig, fel yr oedd yr adroddiad wedi awgrymu). Alla' i wahodd y Cabinet i gynnig ei longyfarchiadau I Ysgol Uwchradd Gwernyfed High School ar y cyflawniad yma?
(Tudalennau 409 - 410)